beaufortresearch

Adroddiad Ymchwil

Arolwg Barn y Cyhoedd am Gymwysterau nad ydynt yn Raddau yng Nghymru 2019

Paratowyd ar gyfer:
Cymwysterau Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research

Manylion Cyswllt

Cyswllt asiantaeth: Fiona McAllister

Prosiect: B101910-3

Dyddiad: Ionawr 2020

Beaufort Research

2 Museum Place
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565
Ffacs: (029) 2037 0600

E-bost: ymholiadau@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Amodau'r Contract

Oni chytunwyd eisoes, bydd hawlfraint canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn eiddo Beaufort Research Ltd ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hailgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni o flaen llaw.

Gwrthodir cyhoeddi neu ddyfynnu ar sail anghywirdeb neu gamliwio yn unig.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir nodi: Beaufort Research Ltd fel darparwr, maint y sampl a dyddiadau gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2020

Cynnwys

Crynodeb gweithredol....4

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull ymchwilio....7
   1.1 Cefndir ac amcanion....7
   1.2 Methodoleg....7

2. Prif ganfyddiadau....10
   2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau Safon UG a Safon Uwch....10
   2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU....14
   2.3 Barn ar bynciau astudio ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed....18
   2.4 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi....26
   2.5 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol....28
   2.6 Canfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau....30

Atodiad I: Holiadur yr arolwg....31

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu Beaufort Research i gynnal arolwg blynyddol o farn aelodau'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn mesur eu hyder mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru a'r system gymwysterau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau ar gyfer arolwg 2019, yn dilyn arolygon cynharach a gynhaliwyd yn 2017 a 2018[1]. Cafodd sampl o 1,000 o oedolion ledled Cymru, sy'n cynrychioli'r boblogaeth yng Nghymru, eu cyfweld wyneb yn wyneb yn y cartref gyda chymorth cyfrifiadur (CAPI) gan ddefnyddio arolwg Omnibws Cymru Beaufort. Gwnaed gwaith maes rhwng 16 Medi a 15 Hydref 2019. Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau ac yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt yn bennaf gyda 'ddim yn gwybod' fel opsiwn ymateb ychwanegol. Roedd y rhan fwyaf o'r holiadur yn gyson ag arolygon cynharach i olrhain newidiadau dros amser, ond ychwanegwyd rhai cwestiynau newydd ar gyfer 2019.

Crynodeb a chanfyddiadau

Roedd hyder y cyhoedd mewn cymwysterau UG/Safon Uwch yn gyffredinol uchel, gyda sgôr gyfansawdd o hyder o 3.60 allan o 5 mewn cymwysterau UG/Safon Uwch. Roedd hyn ychydig yn uwch na sgôr 2018 (3.53) ond nid yw'r gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall yn ystadegol arwyddocaol. Roedd y cyhoedd o'r farn bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach a'u bod yn gymwysterau dibynadwy. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch pa mor dda yr oedd pobl yn deall cymwysterau UG/Safon Uwch (gyda thua un o bob pedwar o'r cyhoedd yn anghytuno â'r datganiad hwn), yn ogystal ag a oeddent yn ffordd dda o baratoi ar gyfer y byd gwaith a datblygu ystod eang o sgiliau i fyfyrwyr (gyda bron i un o bob pump yn anghytuno â'r naill ddatganiad a'r llall). Nid oedd tua un o bob wyth o'r cyhoedd yn gallu rhoi sylwadau ynghylch a oedd marcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir neu a oedd safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd sgôr gyfansawdd o hyder y cyhoedd ar gyfer cymwysterau TGAU yn uwch nag ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, sef 3.67 (ychydig yn uwch na sgôr 2018 - 3.62). Unwaith eto, nid yw'r gwahaniaeth o flwyddyn i flwyddyn yn

[1] Gellir gweld yr adroddiadau hyn ar dudalen we cyhoeddiadau CC

ystadegol arwyddocaol. Roedd barn aelodau'r cyhoedd am gymwysterau TGAU yn debyg ar y cyfan i'w barn am gymwysterau UG/Safon Uwch, gyda'r gymeradwyaeth gryfaf i TGAU am fod yn 'baratoad da ar gyfer astudiaeth bellach' ac am fod yn 'gymhwyster dibynadwy'. Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, roedd cyfran o'r cyhoedd yn anghytuno bod TGAU yn baratoad da ar gyfer gwaith (26%), er bod mwy o ddealltwriaeth o gymwysterau TGAU yn gyffredinol (dim ond 11% oedd yn anghytuno eu bod yn cael eu deall yn dda, o gymharu â 19% yn achos cymwysterau UG/Safon Uwch). Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, nid oedd cyfrannau mawr tebyg o'r cyhoedd yn gallu dweud a oedd y gwaith marcio ar gyfer TGAU yn gywir neu a oedd eu safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Dros y tair blynedd o olrhain bu symudiad cadarnhaol yn gyffredinol yn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau. Mae cytundeb â bron pob un o'r dimensiynau sy'n ymwneud â chymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU wedi cynyddu eto yn 2019, ar ôl cynnydd blwyddyn i flwyddyn o 2017 i 2018.

Roedd barn gymysg ynghylch a ddylid sefyll llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin. Roedd cydbwysedd y farn yn erbyn newid y system raddio TGAU yng Nghymru i fod yr un fath â Lloegr. Roedd ymwybyddiaeth o radd pasio TGAU yng Nghymru yn isel – dim ond un o bob pedwar oedolyn o Gymru a nododd G yn gywir pan ofynnwyd iddynt, mewn cwestiwn newydd ar gyfer 2019, gyda dros hanner yn enwi gradd arall yn anghywir a dau o bob deg yn methu ateb.

Mae'r rhan fwyaf o oedolion Cymru yn credu y dylid disgwyl i ddysgwyr gymryd cymwysterau fel TGAU cyn iddynt adael addysg orfodol yn 16 oed, y dylai popeth sy'n cael ei astudio gan bobl ifanc 14 i 16 oed arwain at gymhwyster ac y dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU yn fwy manwl yn hytrach na mwy yn llai manwl. I gefnogi hyn, roedd dros saith o bob deg o'r cyhoedd o'r farn y dylai dysgwyr gymryd rhwng 5 a 10 pwnc TGAU erbyn 16 oed – dim ond tua un o bob deg oedd o blaid astudio 11 pwnc neu fwy.

Mae bron pob un o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru o'r farn y dylid disgwyl i ddysgwyr astudio Mathemateg a Saesneg Iaith ar gyfer TGAU, tra bod tua naw o bob deg o'r farn y dylai dysgwyr astudio Technoleg Gwybodaeth/Cyfrifiadura a Gwyddoniaeth ar gyfer TGAU. Teimlai o leiaf chwech o bob deg oedolyn y dylai pob dysgwr astudio Iaith Dramor Fodern, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Gorfforol a Cymraeg Iaith. Y pynciau yr oedd lleiafrif o

oedolion yn unig yn credu y dylid disgwyl i ddysgwyr eu hastudio oedd Drama, Celf, Cerddoriaeth, Astudiaethau Crefyddol a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y nifer cyfartalog cymedrig o bynciau unigol yr oedd y cyhoedd yn teimlo y dylai dysgwyr eu hastudio oedd 9.3, pan ofynnwyd i ymatebwyr am un pwnc ar y tro.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw bynciau eraill yr hoffent weld pobl ifanc 14 i 16 oed yng Nghymru yn eu hastudio yn yr ysgol (hyd yn oed os nad oedd y rhain yn arwain at gymhwyster), yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd Sgiliau Bywyd/Sgiliau Ymarferol, Addysg Ariannol/Rheoli Arian ac Economeg y Cartref/Coginio/Gwnïo (pob un wedi'i grybwyll yn ddigymell gan oddeutu un o bob deg o bobl).

Er bod cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi'i gyflwyno i ysgolion a cholegau yng Nghymru nifer o flynyddoedd yn ôl, ni fu cynnydd mewn ymwybyddiaeth na gwybodaeth o'r hyn ydyw dros amser. Er bod chwech o bob deg oedolyn yng Nghymru yn 2019 wedi clywed am Fagloriaeth Cymru, dim ond 17% oedd yn ystyried eu bod yn gwybod llawer amdani. Ar ben hynny, nid oedd tua phedwar o bob deg o'r boblogaeth erioed wedi clywed am y cymhwyster.

Er bod barn aelodau'r cyhoedd am werth yr elfen Tystysgrif Her Sgiliau o Fagloriaeth Cymru yn gadarnhaol, fel mewn arolygon olrhain cynharach, roedd eu barn am werth cymwysterau galwedigaethol yn fwy pendant. Roedd cyfran y bobl sy'n cytuno bod cymryd cymwysterau galwedigaethol yn yr ysgol yn werthfawr ar gyfer dyfodol pobl ifanc yn sylweddol uwch (92%) na chyfran y rhai sy'n cytuno â'r un datganiad am y Dystysgrif Her Sgiliau (82%). Efallai y gellid priodoli hyn i'r ffaith bod pobl yn deall cymwysterau galwedigaethol yn fwy a'u bod yn fwy cyfarwydd â nhw na Bagloriaeth Cymru. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith nad yw nifer y bobl sy'n ymwybodol o Fagloriaeth Cymru neu sy'n gyfarwydd â hi wedi cynyddu ers dechrau olrhain yn 2017, yn awgrymu bod gweithgaredd cyfathrebu parhaus dros gyfnod o amser yn debygol o fod yn angenrheidiol i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion brand cymhwyster newydd. Heb hyn, mae'n annhebygol y bydd statws Bagloriaeth Cymru ymhlith y cyhoedd yng Nghymru yn newid.

Yn olaf, mae cwestiwn newydd sy'n archwilio canfyddiadau'r cyhoedd o ddefnyddioldeb cymwysterau yn dangos cytundeb uchel iawn bod 'cymwysterau yn helpu pobl i fwrw ymlaen mewn bywyd' – 78%. Roedd pobl hŷn 55 oed a throsodd yn sylweddol fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl iau.

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull ymchwilio

1.1 Cefndir ac amcanion

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn y Ddeddf, un o ddau brif nod Cymwysterau Cymru yw cynyddu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Yn 2017, comisiynodd Cymwysterau Cymru Beaufort Research i gynnal arolwg o farn y cyhoedd yng Nghymru er mwyn mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Mae'r arolwg hwn yn ceisio monitro hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau.

Yn 2018 dyfarnwyd y contract i gynnal arolwg hyder y cyhoedd Cymru i Beaufort am dair blynedd arall. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau ail don y contract – 2019.

Diben cyffredinol y gwaith ymchwil yw mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru a'r system gymwysterau ac olrhain agweddau dros amser.

1.2 Methodoleg

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd ymchwil 2019 drwy arolwg Omnibws Cymru Beaufort ym mis Medi gan ddefnyddio cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda chymorth cyfrifiadur (CAPI). Mae arolwg Omnibws Cymru yn cyfweld â sampl gwota gynrychioliadol o 1,000 o oedolion 16+ oed ledled Cymru yn eu cartrefi eu hunain.

Mae arolygon Omnibws yn ddull cadarn o wneud ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol. Fel y mae eu henw yn awgrymu, maent yn galluogi grŵp o ddefnyddwyr i rannu'r un cyfrwng arolygu, ac un o fanteision gwneud hynny yw costau is. Defnyddir Omnibws Cymru gan lawer o sefydliadau'r llywodraeth, sefydliadau lled-lywodraethol a chleientiaid yn y sector preifat er mwyn mesur

barn, agweddau, ymwybyddiaeth, defnydd ac ymddygiad y cyhoedd yng Nghymru ac, yn aml, i gadw golwg arnynt dros amser.

Mae cyfweliadau'n cael eu cynnal mewn 68 o leoliadau ar wahân ledled Cymru, gyda phwyntiau yn cael eu dewis ar hap ar gyfer pob ton. Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LLSOA) yw'r brif uned samplu. Caiff pwyntiau samplu eu dewis gyda thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth o oedolion preswyl yn dilyn proses haenu o fewn rhanbarth.

O fewn pob lleoliad samplu, mae rheolaethau cwota plethedig ar gyfer oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw a statws gweithio. Caiff cwotâu eu pennu i adlewyrchu proffil demograffig hysbys preswylwyr yng Nghymru yn ôl Cyfrifiad diwethaf 2011.

Caiff pob cyfweliad ei gynnal wyneb yn wyneb yng nghartrefi ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Computer Aided Personal Interviewing neu Gyfweld Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur). Ni chaiff mwy nag un person mewn cartref ei gyfweld. Defnyddir gweithwyr maes profiadol Beaufort sy'n ailgysylltu ag ymatebwyr drwy'r post a thros y ffôn ar ôl iddynt gymryd rhan mewn arolwg.

Wrth ddadansoddi, caiff y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw o fewn grwpiau Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011.

Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau ac yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt yn bennaf gyda 'ddim yn gwybod' fel opsiwn ymateb ychwanegol (gweler Atodiad I).

At ddibenion olrhain roedd holiadur 2019 yn gyson, fwy neu lai, â'r rhai a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd cynharach, er bod ychydig o gwestiynau newydd yn ymwneud â TGAU (e.e. ymwybyddiaeth o'r radd basio isaf ar gyfer TGAU yng Nghymru) a chymwysterau yn fwy cyffredinol (e.e. i ba raddau y teimlir bod cymwysterau yn helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd) wedi'u hychwanegu. Mae cwestiynau demograffig hefyd wedi'u cynnwys yn ôl yr arfer yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl dewis cyfranogwyr.

Cafodd 1,000 o oedolion eu cyfweld rhwng 16 Medi a 15 Hydref 2019, y dewisodd 22 ohonynt ateb yn Gymraeg.

Gwallau ystadegol

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r canfyddiadau ar gyfer y sampl o ymatebwyr a gyfwelwyd yn amcangyfrif agweddau, gwybodaeth a barn y boblogaeth sydd o ddiddordeb (yn yr achos hwn, y cyhoedd). O ganlyniad, gall yr holl ganlyniadau gynnwys gwallau samplu.

Mae Tabl 1 isod yn dangos pa mor ddibynadwy yw'r canlyniadau unigol ar gyfer meintiau sampl a chanlyniadau canrannol gwahanol ar lefel hyder o 95%. Er enghraifft, wrth feddwl am y sampl gyffredinol o 1,000 o ymatebwyr a gyfwelwyd, os dywedodd 50% ohonynt eu bod yn gwybod eithaf tipyn am Fagloriaeth Cymru, gallem fod 95% yn hyderus bod y gwir gyfran rhwng 46.9% a 53.1% (h.y. +/- 3.1%). Dylid defnyddio'r cyfyngau hyder a nodwyd fel canllaw bras o gofio bod yr arolwg hwn yn seiliedig ar waith samplu cwota.

Tabl 1: Dibynadwyedd ystadegol (ar lefel hyder o 95%)

	Amrediadau ar lefel hyder o 95% (ac eithrio ffactorau sy'n ymwneud â chynllun yr arolwg)		
Canlyniad yr arolwg	**50%**	**70% / 30%**	**90% / 10%**
Maint y sampl:			
1,000	+/-3.1	+/-2.8	+/-1.9
750	+/-3.6	+/-3.3	+/-2.2
500	+/-4.4	+/-4.0	+/-2.6
200	+/-6.9	+/-6.4	+/-4.2
100	+/-9.8	+/-9.0	+/-5.9

Pan ddywedir bod gwahaniaethau yn y data yn yr adroddiad hwn yn arwyddocaol, mae hyn yn cyfeirio at ganlyniad ystadegol arwyddocaol o brawf arwyddocâd ar y lefel 0.05.

2. Prif ganfyddiadau

2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau Safon UG a Safon Uwch

Roedd y set gyntaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar gymwysterau Safon UG a Safon Uwch ac yn gofyn i gyfranogwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y cymwysterau hyn. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau (roedd 'ddim yn gwybod' yn opsiwn ymateb ond ni chafodd ei annog). Rhoddodd y cyfwelydd esboniad o gymwysterau Safon UG a Safon Uwch yn ôl yr angen cyn i'r cyfranogwr ateb. Yn yr adroddiad mae ‘cytuno’ wedi'i ddiffinio fel y cyfuniad o ‘cytuno'n gryf’ a ‘cytuno’ tra bod ‘anghytuno’ yn gyfuniad o ‘anghytuno'n gryf’ ac ‘anghytuno’.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd llawer yn cytuno bod ‘cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach’ a bod ‘cymwysterau Safon Uwch/UG yn gymwysterau dibynadwy’, gyda tua wyth o bob deg oedolyn yng Nghymru yn cytuno a dim ond tua un o bob ugain yn anghytuno â phob datganiad (gweler ffigur 1 dros y dudalen). Roedd tua chwech o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod ‘cymwysterau Safon Uwch/UG yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr’ a bod ‘gan bobl ddealltwriaeth dda ohonynt’, tra bod tua hanner y sampl yn cytuno eu bod yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith’, a bod ‘safonau cymwysterau Safon Uwch/UG yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn’.

Roedd anghytuno ar ei uchaf gyda'r datganiad 'mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' (gyda thua un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn anghytuno â hyn), tra bod tua un o bob pump yn anghytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG’ a’u bod yn ‘datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr'.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid oedd lleiafrifoedd sylweddol o'r boblogaeth yn gallu dweud a oedd y ffordd y mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn cael eu marcio yn gywir (13% ‘ddim yn gwybod’) a hefyd a oedd ‘safonau cymwysterau Safon Uwch/UG yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn’ (12% 'ddim yn gwybod').

Ffigur 1: Hyder mewn cymwysterau Safon Uwch/UG %



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd pobl sy'n perthyn i'r graddau economaidd-gymdeithasol[2] ABC1 yn llawer mwy tebygol o gytuno â bron pob un o'r datganiadau am gymwysterau Safon Uwch/UG na phobl sy'n perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol C2DE.

Roedd pobl iau rhwng 16 a 34 oed yn llawer mwy tebygol na phobl dros 55 oed o gytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG' yn ogystal â'r datganiad bod 'gwaith marcio cymwysterau Safon Uwch/UG yn gywir'. Roedd pobl rhwng 35 a 54 yn sylweddol llai tebygol na'r rhai dros 55 oed i gytuno bod 'cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'.

[2] Caiff dosbarth economaidd-gymdeithasol unigolyn ei benderfynu drwy ddarganfod beth yw teitl ei swydd, a chaiff graddau cymdeithasol eu diffinio fel a ganlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch neu ganolraddol
C1: Galwedigaethau goruchwylio, clercio a rheoli, gweinyddol a phroffesiynol iau
C2: Gweithwyr llaw medrus
DE: Gweithwyr llaw lled-fedrus ac anfedrus, y rhai sy'n cael pensiwn y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau gan y wladwriaeth yn unig

Roedd menywod yn sylweddol fwy tebygol na dynion o gytuno bod cymwysterau Safon Uwch/UG yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach’ a hefyd ‘yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith.’

Cafodd sgorau cymedrig neu gyfartaleddau eu cyfrifo hefyd ar gyfer pob un o'r datganiadau uchod gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle'r oedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a lle'r oedd 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Yn ogystal â'r mesurau unigol, mae mesur cyfansawdd o hyder wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob un o'r saith datganiad. Cyfrifwyd y mesur hwn drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau Safon Uwch/UG ar gyfer 2019 yw 3.60 allan o 5, sydd ychydig yn uwch na sgôr 2018 (3.53). Dangosir sgorau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 2 isod, ac maent yn amrywio o 3.39 yn y pen isaf (ar gyfer y datganiad bod cymwysterau Safon Uwch/UG yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer gwith') hyd at 4.00 (ar gyfer y datganiad bod cymwysterau Safon Uwch/UG yn ‘ffordd dda o baratoi argyfer astudio ymhellach').

Fel yn 2018, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgorau cymedrig ar gyfer y datganiadau bod cymwysterau Safon Uwch/UG yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a’u bod yn ‘gymwysterau dibynadwy' a'r sgorau cymedrig ar gyfer pob datganiad arall.

Ffigur 2: Mesurau cyfartalog o hyder 2019 – cymwysterau Safon Uwch/UG



Sylfaen: pob ymatebydd ac eithrio'r rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad ac yn cael ei ddangos mewn cromfachau ar gyfer pob un)

Er bod patrwm y canlyniadau yn gyson iawn ar draws y tair blynedd o olrhain, mae arolwg 2019 yn dangos cynnydd pellach yn lefelau cyffredinol y cytundeb â'r datganiadau, ar ôl y cynnydd a welwyd yn 2018 (gweler ffigur 3 isod). Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn 2019 yn y datganiad 'Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG', lle mae canran y rhai sy'n cytuno wedi cynyddu o 49% i 57%.

Ffigur 3: Hyder mewn cymwysterau Safon Uwch/UG dros amser



Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno

Sylfaen: pob ymatebydd (2019 –1,000, 2018 – 1,015, 2017 – 1,008))

2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU

Yna, cyflwynwyd set debyg o ddatganiadau am gymwysterau TGAU i ymatebwyr yr arolwg, a gofynnwyd iddynt ddweud i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau (roedd 'ddim yn gwybod' yn opsiwn ymateb ond ni chafodd ei annog). Darllenodd y cyfwelydd esboniad bras o gymwysterau TGAU yn ôl yr angen cyn i'r cyfranogwr ateb.

Fel gyda chymwysterau Safon Uwch/UG, roedd poblogaeth Cymru yn gryf o'r farn bod cymwysterau TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a'u bod 'yn gymwysterau dibynadwy', gyda thua wyth o bob deg yn cytuno gyda phob un o'r datganiadau hyn a llai nag un o bob deg yn anghytuno. Roedd tua tri o bob pedwar o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' a'u bod yn 'datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr' (gyda 74% a 72% yn cytuno yn y drefn honno).

Roedd y cytundeb ar ei isaf bod 'cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', 'caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' a 'mae gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir' (ar 56%, 54% a 50% yn y drefn honno). Roedd hyn hefyd yn wir am gymwysterau Safon Uwch/UG, er bod cytundeb yma yn is nag ar gyfer TGAU (ar 53%, 46% a 46% ar gyfer pob datganiad). Yn yr un modd â chymwysterau Safon Uwch/UG, roedd lleiafrif sylweddol o tua un o bob pedwar (26%) yn anghytuno bod cymwysterau TGAU yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith'.

Ffigur 4: Hyder mewn cymwysterau TGAU 2019 %



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Roedd pobl iau rhwng 16 a 34 oed yn llawer mwy tebygol na phobl hŷn 55 oed a throsodd o gytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG', a bod 'gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir'. Ar yr un pryd, roedd pobl iau rhwng 16 a 34 oed hefyd yn llawer mwy tebygol na phobl 55 oed a throsodd o anghytuno bod TGAU 'yn gymwysterau dibynadwy', eu bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' a'u bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach'.

Roedd menywod yn sylweddol fwy tebygol na dynion o gytuno bod TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', fel oedd yn wir am gymwysterau Safon

Uwch/UG. Ychydig iawn o wahaniaethau arwyddocaol mewn safbwyntiau oedd yn amlwg rhwng y rhai o wahanol raddau economaidd-gymdeithasol, fodd bynnag.

Fel gyda'r datganiadau am gymwysterau Safon Uwch/UG, cyfrifwyd sgorau cyfartalog ar gyfer pob un o'r datganiadau am gymwysterau TGAU. Defnyddiwyd yr un raddfa o 1 i 5, lle'r oedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a lle'r oedd 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Cyfrifwyd mesur cyfansawdd o hyder hefyd ar gyfer pob un o'r saith datganiad, drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau TGAU ar gyfer 2019 yw 3.67 allan o 5. Fel gyda'r sgôr gyfansawdd ar gyfer cymwysterau SafonUwch/UG, mae'r sgôr hon wedi codi ychydig o'i lefel yn 2018, sef 3.60. Er bod y sgôr gymedrig gyfansawdd ar gyfer cymwysterau TGAU yn 2019, sef 3.67, ychydig yn uwch na'r sgôr gyfansawdd gyfatebol ar gyfer cymwysterau Safon Uwch/UG, sef 3.60, nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

Dangosir sgorau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 5 dros y dudalen, ac maent yn amrywio o 3.38 yn y pen isaf (ar gyfer y datganiad 'mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith') hyd at 3.93 (ar gyfer y datganiad 'mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy').

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd sgôr sylweddol uwch i'r datganiad bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' nag oedd yn wir am gymwysterau Safon Uwch/UG (3.75 yn achos cymwysterau TGAU, o'i gymharu â 3.44 ar gyfer cymwysterau Safon Uwch/UG).

Roedd y sgorau cymedrig ar gyfer y datganiad bod 'cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' yn uwch o lawer na'r rhai ar gyfer pob datganiad arall am y cymhwyster. Roedd hyn hefyd yn wir am gymwysterau Safon Uwch/UG.

Ffigur 5: Mesurau cyfartalog o hyder 2019 – cymwysterau TGAU

Sgôr gymedrig: cytuno'n gryf = 5, anghytuno'n gryf = 1



Sylfaen: pob ymatebydd ac eithrio'r rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad ac yn cael ei dangos mewn cromfachau ar gyfer pob un)

Yn debyg i gymwysterau Safon Uwch/UG, bu cynnydd yn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU yn 2019 (gweler ffigur 6 dros y dudalen).

Mae canran yr ymatebwyr sy'n cytuno â phob un o'r datganiadau sy'n ymwneud â chymwysterau TGAU wedi cynyddu ers 2018 gyda'r cynnydd mwyaf yn cael ei weld ar gyfer y datganiadau 'mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' (fel oedd yn wir am gymwysterau Safon Uwch/UG) a 'caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn'.

Ffigur 6: Hyder mewn cymwysterau TGAU dros amser



2.3 Barn ar bynciau astudio ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed

Yn arolwg 2019 gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau TGAU:

1. Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder
2. Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster
3. Dylid disgwyl i ddysgwyr gymryd cymwysterau fel TGAU cyn iddynt adael addysg orfodol yn 16 oed
4. Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin
5. Dylid newid y system raddio yng Nghymru fel ei bod yr un fath ag yn Lloegr.

Cafodd datganiadau 1 a 2 eu cynnwys yn arolwg 2018 a'u hailadrodd yn 2019; ychwanegwyd datganiadau 3, 4 a 5 at yr holiadur yn 2019.

Fel gyda chwestiynau eraill, gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n

gryf â phob un (roedd 'ddim yn gwybod' yn opsiwn ymateb ond ni chafodd ei annog).

Roedd yr ymatebion i'r gwahanol ddatganiadau yn gymysg. Mae'r rhan fwyaf o oedolion Cymru yn cytuno 'Dylid disgwyl i ddysgwyr gymryd cymwysterau fel TGAU cyn iddynt adael addysg orfodol yn 16 oed', 'Dylai popeth y mae pobl ifanc 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' a 'Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheiny yn fanylach, yn hytrach na mwy o bynciau mewn llai o fanylder'. Rhannwyd barn ynghylch a ddylid 'cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin' ac roedd mwy o bobl yn anghytuno nag yn cytuno gyda'r datganiad y 'dylid newid y system raddio yng Nghymru fel ei bod yr un fath ag yn Lloegr' (gweler ffigur 7 isod).

Ffigur 7: Agweddau tuag at gymwysterau TGAU 2019



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgorau cymedrig yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad ac yn cael ei dangos mewn cromfachau ar gyfer pob un)

Roedd y rhai a oedd yn perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol ABC1 yn llawer mwy tebygol na'r rhai o raddau economaidd-gymdeithsaol C2DE o anghytuno â'r datganiad 'Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder', gyda 27% o'r rhai o raddau ABC1 yn anghytuno â'r datganiad hwn o gymharu â 17% o'r ymatebwyr o raddau C2DE. Roedd yr ymatebwyr o raddau ABC1 hefyd yn llawer mwy tebygol na'r rhai o raddau C2DE o angytuno â'r datganiad 'Dylai popeth y

mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' – roedd 32% o'r grŵp cyntaf yn anghytuno â'r datganiad hwn, o gymharu â 16% o'r ail grŵp.

At hynny, po uchaf oedd lefel y cymhwyster a oedd gan y cyfranogwyr, y mwyaf tebygol ydoedd y byddent yn teimlo na ddylai popeth sy'n cael ei astudio gan bobl ifanc arwain at gymhwyster. Er enghraifft, roedd dros hanner y rhai a gyfwelwyd a oedd â gradd uwch (51%) yn anghytuno â'r datganiad 'Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' o gymharu â 20% o'r rhai nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau addysgol a oedd yn rhannu'r un farn. Ar y llaw arall, roedd y rhai heb unrhyw gymwysterau neu'r rhai a nododd mai TGAU/lefel O oedd eu cymhwyster uchaf yn llawer mwy tebygol na'r rhai â gradd gyntaf neu radd uwch o gytuno y dylai popeth sy'n cael ei astudio arwain at gymhwyster.

Roedd y rhai dan 55 oed (sef y rhai rhwng 16 a 34 a'r rhai rhwng 35 a 54 oed) yn llawer mwy tebygol o gytuno y 'Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin' na phobl hŷn 55 oed a throsodd. Roedd pobl dan 55 oed yng Nghymru hefyd yn llawer mwy tebygol o anghytuno â'r datganiad 'Dylid newid y system raddio yng Nghymru fel ei bod yr un fath ag yn Lloegr', gyda 52% o bobl rhwng 16 a 34 a 51% o bobl rhwng 35 a 54 yn anghytuno â'r datganiad hwn, o'i gymharu â 39% o'r rhai 55+.

Nid oedd unrhyw newidiadau gwirioneddol yn amlwg o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer y ddau ddimensiwn a fesurwyd gyntaf yn 2018, sef 'Dylai popeth y mae pobl ifanc 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' a 'Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder' – gweler ffigur 8 dros y dudalen.

Ffigur 8: Agweddau tuag at gymwysterau TGAU dros amser



Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno

* Datganiadau a ychwanegwyd yn 2019

Sylfaen: pob ymatebydd (2019 –1,000, 2018 – 1,015)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi faint o bynciau TGAU y dylai dysgwyr eu hastudio erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, yn eu barn nhw. Rhoddwyd ystod o ymatebion iddynt ddewis o'u plith, o 4 neu lai i 17 a mwy.

Fel yn 2018, roedd y mwyafrif helaeth (73%) yng Nghymru o'r farn y dylai dysgwyr astudio rhwng 5 a 10 pwnc TGAU erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, gyda 36% yn dewis rhwng 5 a 7 pwnc a 37% yn dewis rhwng 8 a 10 pwnc. Roedd 7% arall o'r farn y dylai dysgwyr astudio llai o bynciau (4 pwnc neu lai), tra bod yr un gyfran o'r farn y dylent astudio rhwng 11 a 13 pwnc. Dim ond 4% oedd yn teimlo y dylai dysgwyr gymryd 14 neu fwy o bynciau TGAU ac roedd 8% arall yn methu ateb (gweler ffigur 9 dros y dudalen).

Ffigur 9 : Barn yr ymatebwyr ar nifer y pynciau TGAU y dylid eu hastudio %

Sawl pwnc TGAU y dylai dysgwyr eu cymryd erbyn 16 oed?



Sylfaen: pob ymatebydd (2019 –1,000, 2018 – 1,015)

Roedd pobl iau yn fwy tebygol o nodi y dylai dysgwyr astudio mwy o gymwysterau TGAU erbyn iddynt gyrraedd 16 oed na phobl hŷn – roedd 16% o bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed o'r farn y dylai dysgwyr astudio 11 o bynciau TGAU neu fwy o gymharu â 7% o bobl 55 oed a throsodd a ddywedodd hyn. Roedd y rhai dros 55 oed yn llawer mwy tebygol o ateb 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn hwn, fodd bynnag.

Am y tro cyntaf yn 2019, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn gwybod pa radd yw'r radd lwyddo isaf ar gyfer TGAU yng Nghymru, ar ôl dangos rhestr o raddau iddynt (o A* i G).

Nododd un o bob pedwar oedolyn yng Nghymru yn gywir mai'r radd basio TGAU isaf yw G, ond rhoddodd tua'r un gyfran (23%) C fel eu hateb (gan godi i 37% o rai rhwng 16 a 24). Dewiswyd graddau eraill (D, E a F) gan gyfanswm o 30% o ymatebwyr, ac nid oedd 20% o oedolion yn gallu rhoi ateb (gweler ffigur 10 dros y dudalen).

Ffigur 10: Ymwybyddiaeth o radd llwyddo TGAU 2019

Pa radd yw'r radd lwyddo isaf ar gyfer TGAU yng Nghymru?



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)

Gofynnwyd i'r rhai a gyfwelwyd nodi hefyd pa bynciau penodol y dylai fod disgwyl i bob dysgwr yng Nghymru eu hastudio ar gyfer TGAU, yn eu barn nhw. Awgrymwyd rhestr o 16 o bynciau (a gyflwynwyd ar hap) iddynt a gofynnwyd iddynt nodi a ddylai pob un o'r rhain gael ei astudio gan bob dysgwr.

Y ddau bwnc ar y safle uchaf y teimlai pobl y dylid eu hastudio ar gyfer TGAU oedd Mathemateg a Saesneg Iaith, a ddewiswyd gan 97% a 96% o'r ymatebwyr yn y drefn honno (gweler tabl 1 dros y dudalen). Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a gyfwelwyd (tua naw o bob 10) o'r farn y dylai fod disgwyl i bob dysgwr astudio Technoleg Gwybodaeth/Cyfrifiadura a Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg a Ffiseg) ar gyfer TGAU, tra dewisodd tua dau o bob tri o'r ymatebwyr Iaith Dramor Fodern, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Gorfforol a Cymraeg Iaith. Dewisodd bron i hanner Dylunio a Thechnoleg.

Roedd pobl iau (rhwng 16 a 34 oed) yn llawer mwy tebygol na phobl hŷn (55 oed a throsodd) o nodi y dylai pob dysgwr yng Nghymru astudio Cymraeg Iaith ar gyfer TGAU, gyda 67% o bobl iau yn dweud hyn o gymharu â 57% o bobl hŷn. Roedd siaradwyr Cymraeg hefyd yn llawer mwy tebygol na phobl nad oeddent yn

siarad Cymraeg o ddweud y dylai pob dysgwr astudio Cymraeg Iaith ar gyfer TGAU (79% o'r grŵp cyntaf o gymharu â 56% o'r ail grŵp). Roedd pobl rhwng 16 a 34 oed hefyd yn llawer mwy tebygol na grwpiau oedran eraill o deimlo y dylai pob person ifanc 14 i 16 oed astudio Llenyddiaeth Gymraeg ar gyfer TGAU.

Y pynciau yr oedd lleiafrif yn unig o ymatebwyr yn teimlo y dylent fod yn orfodol ar gyfer TGAU oedd Llenyddiaeth Gymraeg ac Astudiaethau Crefyddol (y dewiswyd y naill a'r llall gan tua thri o bob deg ymatebydd), Cerddoriaeth a Chelf (a ddewiswyd gan tua un o bob pedwar) a Drama (a ddewiswyd gan un o bob pump).

Tabl 1: Pa bynciau y dylai fod disgwyl i bob dysgwr yng Nghymru eu hastudio ar gyfer TGAU – pynciau a awgrymwyd

%	Ie	Na	Ddim yn gwybod
Mathemateg	**97**	2	1
Saesneg Iaith	**96**	3	1
Technoleg Gwybodaeth / Cyfrifiadura	**90**	9	2
Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg a Ffiseg)	**86**	11	2
Iaith dramor fodern	**64**	32	4
Llenyddiaeth Saesneg	**64**	32	4
Hanes	**64**	32	4
Daearyddiaeth	**63**	34	3
Addysg Gorfforol	**62**	35	3
Cymraeg Iaith	**61**	35	4
Dylunio a Thechnoleg	**47**	48	5
Llenyddiaeth Gymraeg	**32**	63	5
Astudiaethau Crefyddol	**30**	64	6
Cerddoriaeth	**26**	69	5
Celf	**25**	69	6
Drama	**18**	77	5

Sylfaen: holl ymatebwyr (1,000)

Gofynnodd cwestiwn ar wahân a ychwanegwyd yn 2019 pa bwnc/pynciau eraill, os o gwbl, yr oedd oedolion Cymru yn teimlo y dylai pobl ifanc 14 i 16 oed astudio yn yr ysgol (hyd yn oed os nad oedd y rhain yn arwain at gymhwyster TGAU). Roedd yr ymatebion yn hollol ddigymell ac fe'u dangosir yn nhabl 2 dros y dudalen.

Yr awgrymiadau digymell mwyaf poblogaidd oedd Sgiliau Bywyd/Sgiliau Ymarferol (a grybwyllwyd gan 14% o oedolion Cymru), Addysg Ariannol/Rheoli Arian ac Economeg y Cartref/Coginio/Gwnïo (awgrymwyd y ddau gan 10% yr un). Awgrymodd 3% neu lai o'r rhai a gyfwelwyd amrywiaeth o bynciau eraill.

Tabl 2: Pa bynciau eraill y dylai pobl ifanc 14 i 16 oed eu hastudio yn yr ysgol (hyd yn oed os nad ydyn nhw'n arwain at TGAU)? - a nodwyd yn ddigymell

%	Faint
Sgiliau Bywyd / Sgiliau Ymarferol / Sgiliau Sylfaenol	14
Addysg Ariannol / Rheoli Arian	10
Economeg y Cartref / Coginio / Gwnïo	10
Gwleidyddiaeth a Llywodraeth / Materion Cyfoes	3
Sgiliau Cymdeithasol / Cyfathrebu / Moesau	3
Cyfrifeg / Bancio	2
Busnes / Astudiaethau Busnes	2
Dinasyddiaeth / Cyfrifoldeb Cymunedol / Gwirfoddoli / Hawliau	2
Economeg	2
Cymorth Cyntaf / Achub Bywyd	2
Iechyd / Iechyd Meddwl / Llesiant	2
Cymdeithaseg / Gwyddorau Cymdeithasol	2
Gwaith Coed / Gwaith Saer / DIY / Gwaith Metel	2
Peirianneg / Mecaneg	1
Astudiaethau Amgylcheddol	1
Garddio / Amaeth	1
Sgiliau Cyfweld / Sgiliau Ymgeisio am Swydd / Ysgrifennu CV	1
Athroniaeth / Moesau / Moeseg	1
Addysg Rhyw / Addysg Iechyd	1
Iaith Arwyddion	1
Pynciau Galwedigaethol	1
Gofal Plant / Datblygiad Plant	*
Astudiaethau Cyffredinol	*
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	*
Seicoleg	*
Hanes Cymru / Astudiaethau Cymreig	*
Arall	3
Dim	39
Ddim yn gwybod	11
Sylfaen: holl ymatebwyr (1,000) * llai na 1%	

2.4 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i'r ymatebwyr faint, os unrhyw beth, y maent yn ei wybod am beth yw Bagloriaeth Cymru.

Dywedodd chwech o bob 10 oedolyn yng Nghymru (60%) eu bod wedi clywed am Fagloriaeth Cymru cyn cael eu cyfweld. Roedd hyn ychydig yn uwch nag yn 2018 ond ar lefel debyg i 2017. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd ymwybyddiaeth o'r cymhwyster newydd ar ei huchaf ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 (gydag ymwybyddiaeth yn codi i 71% o bob un).

Fodd bynnag, nid oedd bron i bedwar o bob 10 (38%) wedi clywed am Fagloriaeth Cymru. Y rhai sy'n perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol C2DE a'r rhai heb unrhyw gymwysterau oedd lleiaf tebygol o fod wedi clywed am y cymhwyster (gyda 47% a 64% o'r grwpiau hyn yn y drefn honno heb glywed amdano cyn cael eu cyfweld).

Roedd gwybodaeth am Fagloriaeth Cymru yn gyfyngedig ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn ymwybodol (43% ar y cyfan) wedi clywed am y cymhwyster ond yn gwybod dim byd amdano neu'n teimlo eu bod yn gwybod ychydig iawn amdano. Dim ond 17% ar y cyfan a oedd yn teimlo eu bod yn gwybod eithaf tipyn neu lawer iawn am Fagloriaeth Cymru. Roedd pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o deimlo eu bod yn gwybod eithaf tipyn neu lawer iawn, fodd bynnag, gyda 39% o'r rhai 16-24 oed yn dweud hyn.

Ffigur 11: Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru %



Sylfaen: pob ymatebydd (2019 –1,000, 2018 – 1,015, 2017 – 1,008)

Yna, rhoddwyd esboniad o Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau cyn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc. Defnyddiwyd yr un raddfa 5-pwynt â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y datganiadau am gymwysterau Safon Uwch/UG a chymwysterau TGAU yn gynharach yn ystod y cyfweliad.

Roedd dros wyth o bob 10 oedolyn yng Nghymru (82%) yn cytuno bod y 'gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc', tra bod 6% yn unig yn anghytuno. Er na fu cynnydd yng nghanran y bobl a oedd yn ymwybodol o Fagloriaeth Cymru neu'n ei deall o flwyddyn i flwyddyn (fel y gwelwyd uchod), mae canran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn wedi codi ychydig yn 2019 am yr ail flwyddyn (o lefel o 78% yn 2018 a 65% yn 2017). Mae hyn i'w briodoli i leihad yng nghanran yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn hytrach nag unrhyw newid yng nghanran y rhai a oedd yn anghytuno o flwyddyn i flwyddyn (gweler ffigur 12 dros y dudalen).

Ffigur 12: Hyder ym Magloriaeth Cymru dros amser %



Sylfaen: pob ymatebydd (2019 – 1,000, 2018 – 1,015, 2017 - 1,008)

Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgorau cymedrig yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (dangosir maint sylfaen y sgôr gymedrig mewn cromfachau)

2.5 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd roi eu barn ar gymwysterau galwedigaethol, sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau cysylltiedig â gwaith, sy'n cael eu hastudio yn yr ysgol neu golegau Addysg Bellach.

Rhoddwyd dau ddatganiad i ymatebwyr ynghylch cymwysterau galwedigaethol a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno.

Roedd y canfyddiadau o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn gadarnhaol iawn, ar y cyfan, gyda lefelau uchel o gymeradwyaeth o'u gwerth heb newid rhyw lawer ers 2018.

Roedd tua naw o bob deg oedolyn yng Nghymru yn cytuno bod 'ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed gystal ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc', a bod 'cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' (gyda 86% a 92% yn cytuno yn y drefn honno).

Roedd lefelau yr anghytuno â phob datganiad yn isel iawn – sef 5% a 2% yn y drefn honno (gweler ffigurau 13 a 14 dros y dudalen).

Ffigur 13: Hyder mewn cymwysterau galwedigaethol dros amser – I %

Cytuno / anghytuno â'r datganiad 'Mae ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed gystal ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc'

Sgôr gymedrig: cytuno'n gryf = 5, anghytuno'n gryf = 1



Sylfaen: pob ymatebydd (2019 – 1,000, 2018 – 1,015, 2017 - 1,008)

Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgorau cymedrig yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (dangosir maint sylfaen y sgôr gymedrig mewn cromfachau)

Ffigur 14: Hyder mewn cymwysterau galwedigaethol dros amser – II %

Cytuno/anghytuno â'r datganiad 'Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc'

Sgôr gymedrig: cytuno'n gryf = 5, anghytuno'n gryf = 1



Sylfaen: pob ymatebydd (2019 – 1,000, 2018 – 1,015, 2017 - 1,008)

Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno

Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgorau cymedrig yn cynnwys y rhai nad ydynt yn gwybod/a wnaeth wrthod ateb (dangosir maint sylfaen y sgôr gymedrig mewn cromfachau)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau o werth cymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cadarnhaol na'r farn am werth Bagloriaeth Cymru. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr gymedrig ar gyfer y datganiad 'Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' a'r sgôr gymedrig ar gyfer datganiad tebyg am y Dystysgrif Her Sgiliau ('Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau' yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc').

2.6 Canfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau

Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn i ymatebwyr am ganfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau.

Roedd bron i wyth o bob deg o'r rhai a gafodd eu cyfweld (78%) yn cytuno bod 'Cymwysterau yn helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd' tra bod llai nag un o bob deg (9%) yn credu i'r gwrthwyneb. Nid oedd 13% arall yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd pobl 55 oed a hŷn yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl ifanc 16-34 a 35-54 oed, felly hefyd y rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol AB o gymharu â'r rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE.

Ffigur 15: Barn ar bwysigrwydd cymwysterau 2019 %

Cytuno/anghytuno â'r datganiad 'Mae cymwysterau'n helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd'



Noder: Cytuno – yn cyfuno cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – yn cyfuno anghytuno'n gryf/anghytuno
Sylfaen: pob ymatebydd (1,000))

Atodiad I

Holiadur yr arolwg

B01910_3 Omnibws Cymru mis Medi
Cwestiynau Cymwysterau Cymru 2019 - TERFYNOL 3.09.19

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A

C1. Hoffwn ddechrau gyda rhai cwestiynau am eich barn ar gymwysterau mewn ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru. I ddechrau, rhai cwestiynau am gymwysterau Safon Uwch ac UG.

OS BYDD ANGEN, ESBONIWCH: Mae cymwysterau UG yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth (blwyddyn 12) neu'r coleg. Mae canlyniad cymhwyster UG yn cyfrannu at radd y Safon Uwch gyffredinol. Mae cymwysterau Safon Uwch yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd ail flwyddyn y chweched dosbarth (blwyddyn 13) neu'r coleg.

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau Safon Uwch / UG? Dywedwch wrthyf p'un a ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un ohonynt. ***NODER: Mae 'ddim yn gwybod' yn ddewis fel ymateb, ond ni fydd yn ymddangos ar y cerdyn arddangos.***

CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP. DARLLENWCH UN AR Y TRO.

i) Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG
ii) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn gymwysterau dibynadwy
iii) Caiff safonau cymwysterau Safon Uwch/UG eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
iv) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
v) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
vi) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
vii) Mae gwaith marcio cymwysterau Safon Uwch/UG yn gywir

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A eto

C2. Nawr rhai cwestiynau am gymwysterau TGAU. OS BYDD ANGEN, ESBONIWCH: Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau y mae dysgwyr rhwng 15 a 16 oed yn eu cwblhau fel arfer ar ôl astudio am ddwy flynedd. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau TGAU? Dywedwch wrthyf p'un a ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un ohonynt. *NODER: Mae 'ddim yn gwybod' yn ddewis fel ymateb, ond ni fydd yn ymddangos ar y cerdyn arddangos.* CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP. DARLLENWCH UN AR Y TRO.

i) Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU
ii) Mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy
iii) Caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
iv) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
v) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
vi) Mae cymwysterau TGAU yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
vii) Mae gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos B

C3. Cyflwynwyd cymhwyster newydd Bagloriaeth Cymru i ysgolion a cholegau yn ddiweddar. Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei wybod am gymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Llawer iawn
Eithaf tipyn
Ychydig
Wedi clywed amdano ond ddim yn gwybod unrhyw beth amdano
Byth wedi clywed amdano cyn heddiw
Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos C

Craidd cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n gymhwyster annibynnol. Nod y Dystysgrif Her Sgiliau yw datblygu sgiliau bywyd a gwaith megis meddwl yn feirniadol, datrys problemau, cynllunio a threfnu. Gan

ddibynnu ar y lefel astudiaeth, mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn gyfwerth ag un cymhwyster TGAU neu un cymhwyster Safon Uwch.

Cerdyn arddangos A eto

C4. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol am gymhwyster Bagloriaeth Cymru? Dywedwch wrthyf p'un a ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf. *NODER: Mae 'ddim yn gwybod' yn ddewis fel ymateb, ond ni fydd yn ymddangos ar y cerdyn arddangos.* DARLLENWCH YN UCHEL

i) Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos D
Mae llawer o bobl ifanc yn astudio cymwysterau galwedigaethol mewn Colegau Addysg Bellach yn lle astudio cymwysterau Safon Uwch. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.

Cerdyn arddangos A eto

C5. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

i) Mae ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed gystal ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos E
Mae rhai pobl ifanc mewn ysgolion yn astudio cymwysterau galwedigaethol ar y cyd â'u cymwysterau TGAU. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.

Cerdyn arddangos A eto

C6. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

i) Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A eto

C7. Gan feddwl am TGAU eto, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Dywedwch wrthyf p'un a ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un ohonynt. *NODER: Mae 'ddim yn gwybod' yn ddewis fel ymateb, ond ni fydd yn ymddangos ar y cerdyn arddangos.*
CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP. DARLLENWCH UN AR Y TRO.

i) Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder
ii) Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster
iii) Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos F

C8. Sawl pwnc TGAU y dylai dysgwyr eu cymryd erbyn 16 oed?

4 neu lai
5-7
8-10
11-13
14-16
17+

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

C9. Rwyf nawr eisiau gofyn i chi pa bynciau yr ydych yn credu y dylai fod disgwyl i bob dysgwr yng Nghymru eu hastudio ar gyfer TGAU. DARLLENWCH BOB PWNC – Y DREFN I GAEL EI DEWIS AR HAP. COD IE / NA / DDIM YN GWYBOD AR GYFER POB UN

a) A ddylai pob dysgwr astudio [Iaith dramor fodern] ar gyfer TGAU?
b) A ddylai pob dysgwr astudio [Celf] ar gyfer TGAU?
c) A ddylai pob dysgwr astudio [Dylunio a Thechnoleg] ar gyfer TGAU?
d) A ddylai pob dysgwr astudio [Drama] ar gyfer TGAU?
e) A ddylai pob dysgwr astudio [Saesneg Iaith] ar gyfer TGAU?

f) A ddylai pob dysgwr astudio [Llenyddiaeth Saesneg] ar gyfer TGAU?
g) A ddylai pob dysgwr astudio [Daearyddiaeth] ar gyfer TGAU?
h) A ddylai pob dysgwr astudio [Hanes] ar gyfer TGAU?
i) A ddylai pob dysgwr astudio [Technoleg gwybodaeth / Cyfrifiadura] ar gyfer TGAU?
j) A ddylai pob dysgwr astudio [Mathemateg] ar gyfer TGAU?
k) A ddylai pob dysgwr astudio [Cerddoriaeth] ar gyfer TGAU?
l) A ddylai pob dysgwr astudio [Addysg Gorfforol (AG)] ar gyfer TGAU?
m) A ddylai pob dysgwr astudio [Astudiaethau Crefyddol] ar gyfer TGAU?
n) A ddylai pob dysgwr astudio [Gwyddoniaeth (Bioleg, Cemeg a Ffiseg] ar gyfer TGAU?
o) A ddylai pob dysgwr astudio [Cymraeg Iaith] ar gyfer TGAU?
p) A ddylai pob dysgwr astudio [Llenyddiaeth Gymraeg] ar gyfer TGAU?

GOFYN I BAWB

C10. Pa bwnc/pynciau eraill y dylai pobl ifanc 14 i 16 oed eu hastudio yn yr ysgol (hyd yn oed os nad ydyn nhw'n arwain at TGAU)?

YSGRIFENNWCH _____

Dim
Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A eto

C11. Mae Lloegr wedi mabwysiadu system lle mae dysgwyr yn cael eu graddio 9 i 1 ar gyfer TGAU (9 yw'r radd uchaf ac 1 yw'r isaf), tra bod Cymru wedi cadw'r system raddio A* i G (A* yw'r radd uchaf a G yw'r isaf). I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

i) Dylid newid y system raddio yng Nghymru fel ei bod yr un fath ag yn Lloegr

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos G

C12. Pa radd yw'r radd lwyddo isaf ar gyfer TGAU yng Nghymru?

A*
A
B
C
D
E
F
G

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A eto

C13. Yng Nghymru mae'n orfodol yn gyfreithiol i aros mewn addysg amser llawn tan 16 oed. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol?

i) Dylid disgwyl i ddysgwyr gymryd cymwysterau fel TGAU cyn iddynt adael addysg orfodol yn 16 oed

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos A eto

C14. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? Dywedwch wrthyf p'un a ydych yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod...
NODER: Mae 'ddim yn gwybod' yn ddewis fel ymateb, ond ni fydd yn ymddangos ar y cerdyn arddangos.

i) Mae cymwysterau'n helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos H

C15. Ydych chi mewn addysg neu a oes gennych unrhyw blant y mae'r sefyllfaoedd canlynol yn berthnasol iddynt? *Gellir amlgodio*

Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn yr ysgol gynradd
Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth
Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn y brifysgol neu goleg
Ydw – Rwyf yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth
Ydw – Rwyf yn y brifysgol neu goleg
Nac ydw

GOFYN I BAWB
Cerdyn arddangos I

C16. Gan ystyried chi eich hun, beth yw eich cymhwyster addysgol lefel uchaf? *Cod sengl*

TGAU, Lefel O, Gradd O, Gradd Safonol neu debyg
Safon Uwch, Uwch yr Alban, Astudiaeth Chweched Dosbarth neu debyg
HNC neu HND
Gradd Sylfaen
Gradd Uwch
Dim cymwysterau
Mewn addysg o hyd
Arall

Ddim yn gwybod